

Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus Llais
Dydd Mercher 20 Mai 2026
09:30am

Gwesty'r Metropole, Temple Street, Llandrindod,
LD1 5DY a thros Zoom

Aelodau:

Medwin Hughes	Cadeirydd
Alyson Thomas	Prif Weithredwr
Jack Evershed	Aelod Anweithredol
Mair Gwynant	Aelod Anweithredol
Karen Lewis	Aelod Anweithredol
Rajan Madhok	Aelod Anweithredol
Bamidele Adenipekun	Aelod Anweithredol

Ymddiheuriadau:

Grace Quantock	Dirprwy Gadeirydd
Mwoyo Makuto	Aelod Cyswllt
Karla Lee	Rheolwr Llywodraethu a Risg
Katie Holliday	Cyfarwyddwr Cyllid

Yn bresennol:

Ben Eaton	Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltiad Sefydliadol
Richard Bevan	Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd
Jason Smith	Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau
Israa Mohammed	Cynrychiolydd Rhaglen Aelod Bwrdd y Dyfodol
Angela Mutlow	Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweithrediadau
Roxanne Treacy	Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Mewnwelediad
Rebecca Lythgoe	Pennaeth Mewnwelediad ac Ymgysylltu
Rebecca Shand	Rheolwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad

Arsylwi:

Gwirfoddolwyr	Rhanbarth Powys, Llais
---------------	------------------------

2.0 Materion cychwynnol

- 1.0 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, gan gynnwys rhai oedd yn ymuno â'r cyfarfod ar-lein ac yn arsylwi'r cyfarfod.
- 1.1 Nodwyd bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion y cofnodion.
- 1.2 Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

3.0 Datganiadau o fuddiant

- 3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant eraill.
- 3.2 Cadarnhaodd Mair Gwynant, aelod anweithredol, newid i'w datganiad buddiant o 1 Ebrill 2026, gan ei bod hefyd wedi ymuno gyda Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Cadarnhawyd y byddai datganiad yr aelod yn cael ei ddiweddarau. **Cam Gweithredu: Mair Gwynant**

A26-05-01 Datganiad buddiant: Diweddarau'r datganiad buddiant a'i ail-anfon. **Cam Gweithredu:** Mair Gwynant.

3.0 Adroddiad gan y Cadeirydd

- 3.1 Darparodd y Cadeirydd ddiweddariad geiriol yn cwmpasu'r meysydd canlynol:
 - **Cydnabyddiaeth y Dirprwy Gadeirydd** - Nododd y Cadeirydd mai dyma fyddai cyfarfod olaf Garce Quantock wedi bod yn ei rôl fel Dirprwy Gadeirydd. Ar ran y Bwrdd, mynegodd y Cadeirydd ei diolchgarwch diffuant am ei chyfraniad sylweddol. Roedd Grace yn cael ei chydabod fel aelod allweddol o'r Bwrdd, oedd yn cael ei gwerthfawrogi am ei hymgysylltiad cryf a'i barn gytbwys yn nhrafodaethau'r Bwrdd a'r pwyllgorau.
 - **Estyniad i rôl yr aelod Bwrdd y Dyfodol** - nodwyd bod lleoliad Israa Mohammed gyda'r Bwrdd wedi ei ymestyn hyd fis Rhagfyr 2026. Tynnwyd sylw at hyn fel enghraifft bositif o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn hwyluso a datblygu arweinyddiaeth newydd a datblygu aelodau o'r Bwrdd yn y dyfodol.

- **Y cyd-destun cenedlaethol ac ymgysylltiad y llywodraeth** - Myfyriodd y Gadair ar y cyfnod presennol o newid o fewn y wlad yn dilyn sefydlu'r Llywodraeth newydd. Roedd y Prif Weinidog eisoes wedi pwysleisio pwysigrwydd gofal iechyd a gofal cymdeithasol a rôl Gweinidogion yn arwain yr agenda hon. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fwriad i ysgrifennu at y Prif Weinidog i dynnu sylw at y ffaith fod Llais yn barod i gefnogi lle mae'n briodol. **Cam Gweithredu: Cadeirydd y Bwrdd**
- **Rôl sefydliadol a chyfrifoldebau** - Atgoffwyd aelodau o rôl statudol y sefydliad a'r fframwaith y mae'n gweithredu oddi mewn iddo fel corff cenedlaethol. Pwysleisiwyd bod eglurder a hyder wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn hanfodol. Wrth ddatblygu cynlluniau sefydliadol, rhaid i'r ffocws barhau ar gynrychioli pobl Cymru, sicrhau bod eu barn yn sail i gynllunio a darparu gofal iechyd lleol a chenedlaethol fel ei gilydd.
- **Dysgu a Gwelliant** - Ail-bwysleisiodd a chydabu'r Cadeirydd bwysigrwydd gweithredu ar adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys ystyried themâu oedd yn codi o gwynion, adnabod gwersi a ddysgwyd, a datblygu modelau oedd yn ymgorffori'r sylwadau craff yma yn rhan o ymgysylltiad a sgysiau parhaus a sylwadau a wnaed i gyrff y GIG, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.
- **Ymgynghoriad a chynrychiolaeth** - Pwysleisiodd y Cadeirydd mai rôl allweddol y sefydliad oedd ymateb i ymgynghoriadau gwasanaeth a llunio cyflwyniadau. Cytunwyd y byddai'r sefydliad yn gynyddol hyderus a rhagweithiol yn cyhoeddi ei safbwyntiau ar ymgynghoriadau ac ymatebion gan gyrff statudol. Byddai Llais yn cefnogi newid lle bynnag y bo'n bosib, gyda thrafodaethau pellach i gymryd rhan yn y sesiwn breifat yn dilyn y cyfarfod er mwyn datblygu dull y sefydliad ymhellach er mwyn bod yn barod i ymateb i'r llywodraeth newydd a chynllunio ymlaen ar gyfer strategaeth 3 blynedd nesaf Llais.

A26-05-02 Ysgrifennu llythyr ffurfiol at y Prif Weinidog: Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Prif Weinidog er mwyn tynnu sylw at y ffaith fod Llais yn barod i gefnogi lle mae'n briodol. **Cam Gweithredu:** Cadeirydd y Bwrdd.

- 4.1 Adroddodd y Prif Weithredwr am ymgysylltiad parhaus gydag arweinwyr systemau a rheoleiddwyr proffesiynol er mwyn gwreiddio Egwyddorion y Bobl o fewn agweddau at safonau ac archwilio. Archwiliwyd trafodaethau gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar sut allai'r egwyddorion hyn fod yn sail i fethodoleg archwilio ac atgyfnerthu barn broffesiynol ar ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf.
- 4.2 Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfathrebu cyfrifoldebau sefydliadol a ffiniau proffesiynol yn eglur. Byddai gwaith yn parhau gyda sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl yn parhau i fod yn ganolog i wneud penderfyniadau. Byddai ymgysylltu gyda'r holl randdeiliaid yn parhau, er enghraifft roedd trafodaethau gyda'r Colegau Brenhinol wedi eu trefnu.
- 4.3 Darparwyd diweddariad ar raglen Cymunedol o'r Cychwyn Llywodraeth Cymru, sydd â'r bwriad o atgyfnerthu gwasanaethau iechyd a gofal yn seiliedig ar y gymuned. Roedd strwythurau llywodraethu, gan gynnwys grŵp bwrdd a chynghori gyda chynrychiolaeth o Llais, wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, roedd parhad y rhaglen yn amodol ar gadarnhad gan y llywodraeth newydd.
- 4.4 Bu i drafodaeth dynnu sylw at bwysigrwydd ymwneud cymunedol yn y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn. Rhoddwyd sicrwydd mai rôl Llais fyddai cynrychioli llais y cyhoedd ar lefel bwrdd a sicrhau bod aliniad rhwng y strategaeth genedlaethol a phrofiad y gymuned leol.
- 4.5 Roedd gofal iechyd ar draws y ffin yn parhau'n flaenoriaeth i Llais, ac felly, roedd angen i unrhyw faterion oedd heb eu datrys gyflwyno tystiolaeth ffurfiol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn gweithio ar y mater. Roedd newidiadau diweddar i egwyddorion traws-ffiniol NHS England a GIG Cymru angen eglurder ac ymgysylltiad pellach.
- 4.6 Holodd aelodau sut y byddai gwelliannau yng nghysondeb a threfniadau traws-ffiniol yn cael eu mesur. Er bod newidiadau system a pholisi'n cymryd amser i drosglwyddo yn draweffaith, awgrymwyd bod y cyfrifoldeb dros werthuso'n yn gorwedd gyda'r sefydliadau oedd yn eu gweithredu. Byddai Llais yn asesu'n annibynnol p'un a oedd newidiadau'n gwella profiadau pobl a bod yna drefniadau gweithredu effeithiol ac adborth oedd wedi'i ddatblygu'n dda.

- 4.7 Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith fod nifer o flaenoriaethau maniffesto cyn yr etholiad Llais wedi cael eu hadlewyrchu yn ymrwymïadau Llywodraeth Cymru newydd, gyda'r rhan fwyaf o feysydd yn cael eu hymgorffori a nifer yn cael eu hadnabod fel blaenoriaethau allweddol. Yn benodol, roedd yna ymrwymiad i sicrhau y byddai'r hyn sy'n bwysig i unigolion yn cael ei integreiddio i mewn i gynllunio gofal a thriniaeth.
- 4.8 Dygwyd i sylw'r Bwrdd bod yna system gweithlu digidol arfaethedig newydd, a bod Llais wedi derbyn cais i'w fabwysïadu'n gynnar. Roedd asesiadau cychwynnol wedi dangos bod buddion yn gysylltiedig gyda chost, graddfa, a defnyddioldeb. Cadarnhawyd bod y system yn cael ei datblygu drwy Wasanaethau a Rannwyd y GIG, gyda chyfleoedd i Llais ddylanwadu ar ei ddyluniad. Cafwyd ymrwymiad o gapasiti ychwanegol gan y rhaglen ddylunio er mwyn cefnogi gweithrediad Llais, o ystyried heriau capasiti mewnol presennol y sefydliad. Byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth.
- 4.9 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod cyrff rheolaethol yn gyfrifol am ddarparu sicrwydd o fewn eu cylch gorchwyl, oedd yn cynnwys trosolwg o safonau proffesiynol a diwylliant sefydliadol. Er enghraifft, roedd Llais yn parhau i geisio sicrwydd ar gynnydd yn y Cyngor Bydwreigiaeth Cenedlaethol ar ei gynnydd yn erbyn yr adolygiad annibynnol diweddar.

5.0 Chwyddwydr ar ein gweithgareddau a straeon gwerthfawrogi pobl: Plant a phobl ifanc: ymchwil, ymgysylltu a phartneriaethau

- 5.1 Darparodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Deallusrwydd drosolwg o raglen waith gynyddol Llais gyda phlant a phobl ifanc a phwysleisiodd eu bod yn un o'r grwpiau oedd yn cael eu clywed leiaf. Roedd gwaith yr ymgymerydd ag ef hyd yma eisoes yn cael effaith bositif. Wrth symud ymlaen at y dyfodol, byddai'r ffocws ar atgyfnerthu gallu'r sefydliad i adnabod risgiau cynnar a dylanwadu ar wneud penderfyniadau, gwneud yn siŵr bod profiadau plant a phobl ifanc yn sail i waith Llais ac yn ei lunio, a galluogi Llais i gynrychioli eu profiadau i ddarparwyr gwasanaeth.
- 5.2 Rhannwyd enghreifftiau rhanbarthol. Yn rhanbarth Castell-nedd, Port Talbot ac Abertawe, roedd gweithgaredd ymgysylltu wedi canolbwyntio ar wasanaethau iechyd meddwl, gyda gwaith

sylweddol yn cael ei wneud mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid er mwyn meithrin perthnasoedd dibynadwy ac annog cyfranogiad ystyrlon.

- 5.3 Yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, roedd digwyddiadau ymgysylltu wedi cael eu darparu mewn partneriaeth gyda gwasanaethau lleol, awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd, oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau plant a phobl ifanc a niwroamrywiaeth.
- 5.4 Roedd y gwaith hwn yn tynnu sylw at yr angen am fynediad cynharach at gefnogaeth, gwell cyfathrebu, gwaith aml-asiantaeth estynedig a datblygu adnoddau ar gyfer teuluoedd. Roedd Llais wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn chwilio am ymwneud yn natblygiad datganiad ansawdd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl pobl ifanc, er mwyn sicrhau bod egwyddorion pobl yn cael eu mewnosod.
- 5.5 Hysbyswyd y Bwrdd o waith ymchwil a gomisiynwyd yr ymgymherwyd ag o yng Nghwm Taf Morgannwg ynghylch mynediad at nyrsys ysgol mewn ysgolion arbennig. Bu i ymchwil annibynnol oedd yn ymwneud â rhieni, athrawon ac arweinwyr dynnu sylw at y ffaith fod nyrsys ysgol yn hanfodol, yn arbennig felly ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth.
- 5.6 Roedd canfyddiadau hefyd wedi adnabod lleihad mewn darpariaeth, cyfathrebu gwael gyda rhieni a chynnydd mewn absenoldebau o'r ysgol. Nodwyd bod rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yn parhau i ymgysylltu ar y pwnc hwn. Derbyniwyd sicrwydd bod y sefyllfa wedi gwella, fodd bynnag, roedd hyn yn amodol ar fonitro parhaus.
- 5.7 Roedd Llais wedi comisiynu ymchwil cenedlaethol ar draweffaith diddymu elw o ofal pant a gafodd gefnogaeth gyffredinol gref i'r polisi. Serch hyn, tynnwyd sylw hefyd at y risgiau oedd yn gysylltiedig gyda gweithrediad, gan gynnwys amhariad posib ar leoliadau gofal, traweffeithiau negyddol ar blant a phryderon ynghylch darpariaeth y Gymraeg. Byddai'r problemau hyn yn cael eu codi gyda Llywodraeth Cymru.
- 5.8 Nododd y Bwrdd waith parhaus Llais yn dylanwadu ar bolisi a newid system drwy ei ymrwymadau maniffesto, gyda nifer ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc. Roedd hyn wedi cynnwys ymatebion ar gyfer nifer o ymgynghoriadau, yn ymgorffori lleisiau plant a phobl ifanc, gan gynnwys Strategaeth ddrafft Gofalwyr Di-dâl, a Chynllun Drafft Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.

- 5.9 Roedd arweinydd strategol Llais ar gyfer plant a phobl ifanc bellach yn ei le. Roedd ffocws wedi'i roi ar adeiladu partneriaethau cenedlaethol a rhwydweithiau cryfach er mwyn cefnogi'r maes gwaith hwn.
- 5.10 Derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad ar ddatblygiad y brand Criw Llais, oedd â'r bwriad o ddarparu hunaniaeth eglur a rannwyd i blant a phobl ifanc ar draws Llais. Cafodd y brandio 'Arwyr Llais' arfaethedig ei gyflwyno. Mae'r cymeriadau hyn wedi'u cyd-ddatblygu/dylunio yn seiliedig ar adborth gan blant a phobl ifanc, gan adlewyrchu themâu allweddol oedd yn bwysig iddynt hwy. Roedd y nodweddion a gynrychiolwyd yn cynnwys - 'gofalu', 'grymuso', 'cefnogi' a 'gwrando'.
- 5.11 Roedd enghreifftiau o sut fyddai brand Criw Llais yn cael ei gymhwyso ar draws gwahanol adnoddau, deunyddiau a phosteri wedi eu profi gyda phlant a phobl ifanc er mwyn casglu eu hadborth. Byddai'r brand yn cael ei lansio'n ffurfiol yn yr Eisteddfod yr Urdd nesaf, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ddeunyddiau hyrwyddo wedi'u brandio'n benodol. Byddai'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio fel cynllun peilot er mwyn asesu p'un a fyddai'r brandio a'r deunyddiau 'Arwyr Llais' yn annog ymgysylltu a sgysiau effeithiol gyda phlant a phobl ifanc.
- 5.12 Nododd y Bwrdd hefyd y rhaglen waith "Gwrando arnom Ni" barhaus, oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltiad gydag amrywiaeth o gymunedau a sefydliadau. Roedd hyn yn datblygu canllawiau ymgysylltu wedi'u teilwra ac a gyd-gynhyrchwyd gyda grwpiau penodol, gan gynnwys y gymuned Fyddar, defnyddwyr laith Arwyddion Prydain, cymunedau LGBTQ+, gofalwyr di-dâl, menywod gyda salwch cronig, pobl gydag anableddau dysgu a chymunedau lleiafrifoedd ethnig.
- 5.13 Nodwyd mai gwaith gyda phlant a phobl ifanc fyddai'r cam nesaf er mwyn bod yn sail i arfer da mewn ymgysylltu. Roedd gweithgaredd datblygiad mewnol hefyd ar waith er mwyn atgyfnerthu adnoddau, dulliau a gwybodaeth sefydliadol yn y maes hwn.
- 5.14 Canmolodd aelod anweithredol yr ymgysylltiad cryf gan ofyn am waith gyda phlant a phobl ifanc oedd heb fod mewn lleoliadau ysgol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd addysg mewn dulliau aml-ddisgyblaethol. Cafodd ymgysylltiad gyda chymunedau teithwyr sipsi drwy ofal cymdeithasol hefyd ei nodi a chadarnhawyd bod yna gydweithrediad parhaus gyda phartneriaid tai ac addysg.

- 5.15 Croesawyd y gwaith gan yr aelodau a thrafodwyd pa mor bwysig oedd ymgysylltu'n effeithiol gyda'r genhedlaeth. Tynnwyd sylw at ddatblygu siaradwyr y dyfodol a dylunio systemau o amgylch safbwyntiau pobl ifanc. Codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai dod â phobl ifanc ynghyd led-led Cymru yn cael traweffaith gwirioneddol.
- 5.16 Cynlluniwyd ymgysylltiad cenedlaethol unwaith y byddai adnoddau pellach yn eu lle a chadarnhawyd bod rhai rhanbarthau'n recriwtio gwirfoddolwyr ifanc, gyda chynlluniau i ymestyn. Roedd cefnogi llais yr ifanc yn parhau'n allweddol i ddatblygu arweinwyr y dyfodol. Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen i atgyfnerthu strategaeth gwirfoddolwyr a chynyddu ymgysylltiad yr ifanc, gan gynnwys gydag ysgolion ac addysg uwch. Byddai sylwadau craff rhanbarthol yn cael eu cydlynu er mwyn sicrhau cynrychiolaeth a thraweffaith effeithiol.
- 5.17 Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen am i sefydliadau cenedlaethol fewnosod y gwaith hwn ac adrodd arno a gofynnwyd ynghylch partneriaethau ac adnoddau. Roedd trafodaethau cynnar ar waith gyda chyrff allweddol, gyda chysylltiadau posib gyda Rights Respecting Schools. Byddai'n bosib gwneud cais am adnoddau ychwanegol, pe baent eu hangen.
- 5.18 Tynnodd y Cadeirydd sylw at bwysigrwydd dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth. Byddai tystiolaeth ac adborth yn cael eu rhannu gyda'r llywodraeth er mwyn adlewyrchu profiad y cyhoedd, gyda lleisiau plant a phobl ifanc yn cefnogi newid yn y system. Anogwyd y rhai oedd yn arwain y gwaith hwn gan y Cadeirydd i gael trafodaethau pellach gyda'r BBC ac S4C er mwyn ymgysylltu gyda'r rhai oedd yn comisiynu eu hamrywiaeth o raglenni.

6.0 Chwyddwydr ar ein gweithgareddau: Diweddariad ar gyflwyno Gwrando ar bobl (Listening to people) - system gwynion newydd y GIG

- 6.1 Darparodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Mewnwelediad ddiweddariad ar roi Gwrando ar Bobl ar waith o 1 Ebrill 2026, oedd yn disodli proses gwynion flaenorol y GIG.
- 6.2 Roedd yr adborth a gafwyd yn gymysg, a nodwyd bod mwy o alw a disgwyliadau. Parhau oedd y trafodaethau gyda byrddau iechyd er mwyn cael eglurder ynghylch cyfrifoldebau, a sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

- 6.3 Roedd rhai byrddau iechyd yn profi heriau wrth ymateb oherwydd pwysau staffio, gydag anghysondebau mewn cyfathrebiadau wedi'u hadnabod, yn arbennig felly mewn gofal cynradd. Gwelwyd bod problemau a godwyd ym Mhowys yn y lle cyntaf yn gyson ar draws Cymru. Roedd y sefydliad wedi mynegi pryderon wrth Lywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwelliant y GIG, ac roedd peth camau gweithredu wedi'u cymryd, er bod angen gwelliant pellach.
- 6.4 Byddai Llais yn parhau i gyflwyno achosion hyd nes i welliannau gael eu gwireddu. Er bod cwynion wedi cynyddu, roedd perfformiad yn parhau i fod yn amrywiol. Roedd lansiad meddal a ymgymrwyd gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at yr angen am i Llais ddarparu eglurhad ychwanegol i'r cyhoedd. Nododd y Cadeirydd bod y problemau wedi codi oherwydd y lansiad meddal, a thynnodd sylw at yr eglurder oedd yn angenrheidiol rhwng cyrff y GIG a rôl awdurdodau lleol. Awgrymwyd bod angen ymgysylltiad pellach, ac roedd angen eglurder ynghylch y camddealltwriaeth posib rhwng rolau sefydliadau a Llywodraeth Cymru.
- 6.5 Cwestiynodd y Cadeirydd ymwybyddiaeth y cyhoedd o ymwneud Llais. Nodwyd bod cyfarwyddwyr rhanbarthol yn darparu diweddariadau'n lleol, ac roedd cyfle i wella tryloywder drwy gyhoeddi materion ac ymatebion iddynt yn weithredol. Roedd y Bwrdd yn cefnogi gwelededd cyhoeddus cynyddol ei waith drwy adrodd yn rheolaidd ar y wefan ac o fewn papurau'r Bwrdd.
- 6.6 Holodd y Cadeirydd ynghylch ymgysylltiad Llais gyda Llywodraeth y DU a Swyddfa Cymru. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod Llais yn cyfrannu tystiolaeth i'r llywodraeth newydd.
- 6.7 Mynegwyd pryderon ynghylch y ffocws cyfyngedig ar bobl hŷn, gan nodi pwysigrwydd cynnal cydbwysedd ar draws pob maes o ofal cymdeithasol. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd rôl Llais ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, lle roedd y prif faterion yn cael eu delio â hwy gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Cadarnhawyd y byddai Llais yn parhau i adlewyrchu adborth y cyhoedd drwy'r sianeli hyn.
- 6.8 Nodwyd yn ogystal bod adroddiadau'n cael eu rheoli'n rhanbarthol ar hyn o bryd, ac y gallai fod yn werthfawr sefydlu ystorfa ganolog er mwyn gwella trosolwg a mynediad atynt.

7.0 Gwasanaethau iechyd a gofal ym Mhowys

- 7.1 Darparodd Cyfarwyddwr Rhanbarthol Powys gyflwyniad ar waith Llais yn y rhanbarth a chroesawodd nifer o wirfoddolwyr oedd yn bresennol.
- 7.2 Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar drosolwg strategol ar y prif ffactorau oedd yn rhoi pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol ac a oedd yn wynebu preswylwyr ym Mhowys, lle roedd systemau dro ar ôl tro yn disgyn yn brin o egwyddorion pobl a sut roedd y rhanbarth yn gynyddol yn ceisio troi profiad bywyd yn newidiadau strwythurol mesuradwy.
- 7.3 Nodwyd bod y tair her ganlynol oedd yn digwydd dro ar ôl tro yn gyson yn diffinio profiadau preswylwyr Powys:
 - Mynediad annheg at ofal a chefnogaeth amserol
 - Systemau toredig a pharhad gofal gwael
 - Cyfathrebu, urddas methiannau y byddai modd eu hatal.
- 7.4 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd rhanbarth Powys wedi adeiladu sail tystiolaeth ar draws ei 13 o gymdogaethau. Roedd y ffocws eleni ar sut i ddefnyddio'r dystiolaeth i helpu i greu newid a dylanwadu arno.
- 7.5 Roedd nifer o heriau nad oeddent yn unigryw i ranbarth Powys; roedden nhw'n cael eu profi ar hyd a lled Cymru. Fodd bynnag, roedd daearyddiaeth a dyluniad system Powys yn gwaethygu llawer o'r pwysau cenedlaethol ac yn dwysáu gohiriadau, oedd yn cynnwys comisiynu trawsffiniol, poblogaeth oedd yn heneiddio, systemau gwasgaredig, eithrio digidol, rhwystrau at drafnidiaeth, prinder o fewn gweithluoedd, ardal wledig a seilwaith annigonol.
- 7.6 Tynnodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol sylw at y ffaith fod yr wybodaeth yn gredadwy yn strategol gan ei fod yn triongli oherwydd y gwaith achos eiriolaeth, digwyddiadau ymgysylltu, fforymau gofal cymdeithasol, gwybodaeth gan wirfoddolwyr a phartneriaid, 112 o gyflwyno achosion ffurfiol a fforymau statudol.
- 7.7 Cafodd tair ffilm fer yn seiliedig ar stori un claf eu rhannu oedd yn disgrifio profiad claf ac yn dangos sut y gallai un daith unigol ddatguddio pwysau ehangach, bylchau a chyfleoedd ar gyfer gwelliant ar draws gofal iechyd a chymdeithasol, a rhannwyd enghreifftiau o hynny.

- 7.8 Roedd pob stori'n dangos gwahanol safbwynt: roedd y cyntaf am heriau mynediad gwledig a gofal brys, archwiliodd yr ail systemau toredig a bylchau wrth newid rhwng gwasanaethau. Roedd y trydydd yn canolbwyntio ar gyfathrebu, urddas a gofal oedd yn canolbwyntio ar y person.
- 7.9 Nododd y Bwrdd er y gallai newid system ystyrlon gymryd misoedd neu flynyddoedd, bod yna eisoes dystiolaeth eglur o gynnydd mesuradwy. Tynnodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol sylw at y ffaith fod cyflawni newid system hirdymor yn dibynnu'n drwm ar ymrwymiad parhaus staff a gwirfoddolwyr.
- 7.10 Croesawyd y cyflwyniad gan yr aelodau anweithredol. Holwyd cwestiynau ynghylch sut ellir rhannu enghreifftiau o arfer da o Bowys ar draws rhanbarthau eraill, ac yn genedlaethol. Awgrymwyd y gallai gwaith gael ei wneud er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith hwn. Gallai gwella gwelededd a mabwysiadu dull gyda mwy o ffocws i rannu dysgu atgyfnerthu ymatebion a dylanwadu ar draws ardaloedd ehangach.
- 7.11 Nododd y Prif Weithredwr bod gwaith yn digwydd er mwyn gwella sut y byddai deilliannau'n cael eu cyfathrebu'n ôl i'r cyhoedd, oedd yn cynnwys drwy gyhoeddi ar wefan. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod dulliau digidol yn unig yn annigonol ar gyfer rhai grwpiau e.e. cymunedau digartref, a bod dulliau ymgysylltu amgen, yn seiliedig ar y gymuned yn cael eu datblygu.
- 7.12 Mynegodd y Cadeirydd ddiolchgarwch am y gwaith yr ymgymherwyd ag o ym Mhowys a gofynnodd am i'r cyflwyniad gael ei rannu gyda'r Bwrdd.

A26-05-03 Cyflwyniad Powys: Rhannu'r cyflwyniad gydag aelodau o'r Bwrdd. **Cam Gweithredu:** Cyfarwyddwr Rhanbarthol Powys.

8.0 Perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn Cynllun Blynyddol ac adroddiad sicrwydd 2025/2026

- 8.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltiad Sefydliadol yr adroddiad perfformiad Chwarter 4, gan nodi bod pedwar o'r pum blaenoriaeth strategol yn gwneud cynnydd fel y cynlluniwyd.
- 8.2 Roedd Blaenoriaeth 5 yn parhau i fod ar ambr oherwydd y pwysau parhaus o fewn datblygiad gweithlu a llif gwaith sefydliadol.

- 8.3 Adroddwyd nad oedd y system adrodd Canlyniadau Amcanion Allweddol blaenorol bellach yn cael ei defnyddio. Cafodd system newydd ei chaffael ym mis Ionawr 2026, gyda data hanesyddol wedi cael ei symud yn llwyddiannus. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Blynnyddol, gyda diweddariad pellach i gael ei ddarparu yn y cyfarfod Bwrdd nesaf.
- 8.4 Yn ystod y chwarter, roedd Llais wedi ymgysylltu gyda thros 2,700 o bobl ar draws mwy na 150 o weithgareddau. Gwnaed 118 o sylwadau ffurfiol a bu i oddeutu 1,300 o unigolion gefnogi drwy eiriolaeth. Er bod cyfanswm nifer y gweithgareddau ymgysylltu wedi lleihau fymryn, nodwyd bod yr ymgysylltu mewn mwy o ddyfnder.
- 8.5 Parhaodd yr adborth gan y cyhoedd yn gyson, gan dynnu sylw at brofiadau positif megis staff tosturiol, cyfathrebu cryf, parhad gofal a chefnogaeth gan y gymuned. Roedd y prif feysydd ar gyfer gwelliant yn parhau i gynnwys gofal brys ac mewn argyfwng, amserau aros hir, gofal mewn coridorau, a phryderon ynghylch urddas.
- 8.6 Parhaodd iechyd meddwl yn bryder sylweddol ar hyd a lled Cymru, yn arbennig felly yn y cyfnod pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion. Roedd mynediad at wasanaethau hefyd yn parhau i fod yn broblem fawr, gan gynnwys argaeledd apwyntiadau a rhwystrau at drafnidiaeth, yn arbennig felly mewn ardaloedd gwledig.
- 8.7 Wrth edrych ymlaen, byddai ffocws allweddol yn Chwarter 2 ar gyfathrebu ac urddas, wedi'u halinio gydag egwyddorion y bobl. Roedd yr egwyddorion hyn yn gynyddol yn cael eu defnyddio i gefnogi trafodaethau gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ynghylch sut beth ddylai gofal iechyd a gofal cymdeithasol fod o safbwynt y cyhoedd. Nodwyd bod cydweithwyr cyfathrebu'n creu ymgyrch o amgylch hyn.
- 8.8 Byddai adroddiad perfformiad nesaf y Bwrdd ar gyfer chwarter cyntaf 2026/2027 yn symud i'r fformat newydd o wahanu metrigau perfformio a dangosyddion perfformiad allweddol o'r fformat fwy naratif o ddisgrifio gweithgaredd, traweffaith a dylanwad. Byddai'r naratif traweffaith a dylanwadu'n cael eu cynnwys yn yr adroddiadau chwarter 'yr hyn rydym ni'n ei glywed'.
- 8.9 Nododd aelodau bod gweithgaredd adrodd ar draws rhanbarthau wedi bod yn heriol, ac o'r herwydd bod rhai anghysondebau wedi

bod yn yr adrodd. CRM fyddai'r unig fecanwaith adrodd yn y dyfodol felly dylai hynny ddatrys yr heriau.

9.0 Adroddiad diweddariad cyllid

- 9.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau yr adroddiad cyllid ar gyfer safle blwyddyn yn gorffen 2025/2026 gyda thanwariant o £110,000 oedd yn cynrychioli 1.3% o gyfanswm y gyllideb refeniw. Nodwyd bod hyn mewn drafft hyd oni byddai'r ffigyrau archwilio a'r ffigyrau terfynol yn cael eu hadrodd.
- 9.2 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ddyraniad refeniw 2026/2027 Llais o £8.648m, gan gynrychioli codiad o £353,000 mewn perthynas â chyllideb waelodlin 2025/2026 oedd wedi galluogi datblygu cyllideb gytbwys a fforddiadwy ar gyfer 2026/2027.
- 9.3 Roedd y rhagolwg ariannol tymor canolig ar gyfer 2026/2027 a 2027/2028 yn parhau i fod yn gadarn gyda rheolaeth weithredol drwy gydol y flwyddyn, a chyda pwysau gweithlu ac adnoddau ychwanegol wedi eu cyfrif amdanynt.
- 9.4 Mynegodd un aelod anweithredol bryder ynghylch y tanwariant, gan dynnu sylw at yr amgen am gydbwyso rheoli diwedd y flwyddyn ariannol gyda sicrhau bod yr adnoddau oedd ar gael yn cael eu defnyddio'n llawn, gan y byddai arian tanwariant yn gallu cael ei golli. Codwyd cwestiynau ynghylch sut allai'r tanwariant fod wedi cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, eglurwyd yn ogystal bod problem wedi bod gydag un caffael, lle nad oedd yr eitemau a archebwyd wedi'u derbyn hyd nes wedi diwedd y flwyddyn, ac arweiniodd hyn at danwariant mwy na'r disgwyl, nac a gynlluniwyd. Gan fod y ffigyrau yn parhau i fod yn ffigyrau drafft, mae'n bosib y byddai gwariant pellach eto i gael ei gofnodi, a gallai hynny leihau'r tanwariant terfynol.
- 9.5 Trafodwyd y buddsoddiad CRM a gynlluniwyd yn ogystal, gydag awgrym er mwyn sicrhau bod capasiti a gallu mewnol digonol er mwyn rheoli a chael rheolaeth ar ei weithrediad. Darparwyd sicrwydd bod adnoddau a chynlluniau priodol yn eu lle.
- 9.6 Ceisiwyd eglurder ynghylch pam roedd buddsoddiad CRM yn cael ei ystyried fel refeniw yn hytrach na chyfalaf, a chadarnhawyd bod y dosbarthiad hwn wedi'i adolygu a'i gytuno arno gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Rheolwr Cyllid yn seiliedig ar ddogfennaeth sefydlu'r prosiect.

- 9.7 Dywedodd y Prif Weithredwr bod adolygiad ariannol yn cael ei ddatblygu a bod gwaith parhaus yn digwydd mewn perthynas â disodli'r system ESR.
- 9.8 Nododd Aelod Anweithredol, yn eu rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd bod pwyllgor ariannol penodol wedi'i drefnu un awr cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mehefin 2026 er mwyn caniatáu trafodaeth fanwl o weithdrefnau ariannol.

10.0 Adroddiad diweddariad Pobl

- 10.1 Darparodd y Rheolwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol ddiweddariad ar faterion ynghylch y gweithlu a phobl. Nodwyd bod cyfyngiadau capasiti parhaus o fewn y Tîm Pobl; fodd bynnag, sicrhawyd cymeradwyaeth er mwyn recriwtio Partner Dysgu a Datblygiad Sefydliadol ar gytundeb 12 mis tymor penodol. Byddai'r rôl hon yn cefnogi Blaenoriaeth 5 y Cynllun Blynyddol, gan gynnwys adolygiad recriwtio llawn, atgyfnerthu trefniadau cynefino, a dadansoddi anghenion dysgu sefydliadol.
- 10.2 Ers y cyfarfod Bwrdd blaenorol, roedd dau Bennaeth Eiriolaeth ac Ymgysylltu rhanbarthol wedi'u penodi yn rhanbarthau Castell-nedd, Port Talbot ac Abertawe, a Gorllewin Cymru, gyda'r ddau bellach mewn swyddi parhaol.
- 10.3 Roedd cynnydd yn parhau gyda'r pum rôl newydd a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Bwrdd. Roedd un rôl, Eiriolwr Cwynion Gorllewin Cymru, wedi'i llenwi, gydag un arall, sef Swyddog Cyllid, yn aros am werthusiad swydd, ac roedd y 3 rôl arall yn parhau i gael eu datblygu ar hyn o bryd.
- 10.4 Roedd rôl Swyddog Cefnogi Gweinyddol yn cwmpasu eiriolaeth cwynion ac ymgysylltu, yn cael ei gwerthuso yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus yn rhanbarth Gwent. Yn ogystal, roedd Rheolwr Gweithrediadau Rhanbarthol wedi'i benodi ar gyfer Castell-nedd, Port Talbot ac Abertawe.
- 10.5 Roedd y Tîm Pobl wedi gweithio gydag arweinwyr sefydliadau er mwyn adnabod anghenion dysgu a datblygu ac roedd yn parhau i ymateb i geisiadau unigol. Sefydlwyd gweithgor penodol er mwyn datblygu rhaglen wedi'i theilwra ar gyfer Penaethiaid Eiriolaeth Cwynion ac Ymgysylltu Rhanbarthol.

- 10.6 Cafodd cyfleoedd ar gyfer datblygu arweinyddiaeth drwy Academi Cymru eu rhannu gyda'r holl reolwyr llinell ac roedd cynnydd ar iechyd a diogelwch yn parhau, gan gynnwys adolygiad allanol cynhwysfawr. Roedd archwiliadau safle wedi'u cwblhau yn Rhanbarthau Cwm Taf Morgannwg a Gwent, gydag archwiliadau'n parhau yng Nghaerdydd a'r Fro a'r swyddfa genedlaethol.
- 10.7 Nododd y Bwrdd y dangosfwrdd gweithlu chwarterol ar gyfer Ionawr i Fawrth 2026, gyda'r prif uchafbwyntiau'n cael eu cyflwyno. Trafodwyd gwerthusiadau blynyddol a thynnwyd sylw at y ffaith fod angen ffocws pellach ar gysondeb ar gyfer y gwerthusiadau er mwyn helpu gyda datblygiad unigol a datblygiad gweithlu. Awgrymwyd y gellid edrych yn bellach ar hyn y Pwyllgor Gweithlu, Cyflog a Thelerau Gwasanaeth oedd i ddod.
- 10.8 Mynegodd Aelod Anweithredol bryderon ynghylch gohiriadau mewn prosesau gwerthuso swyddi gan gwestiynu p'un a fyddai'n bosib cymhwyso her bellach er mwyn sicrhau bod gwasanaeth mwy amserol yn cael ei dderbyn o dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gwasanaethau a Rennir y GIG. Mynegwyd pryderon yn ogystal ynghylch lefelau absenoldebau salwch, yn arbennig felly, lle roedd rhain wedi cael eu hadnabod fel bod yn gysylltiedig gyda gwaith. Ceisiwyd sicrwydd ynghylch y risgiau sefydliadol a sut mae achosion yn cael eu rheoli.
- 10.9 Cadarnhawyd bod yr holl absenoldebau'n cael eu rheoli'n weithredol a bod y risg cyffredinol i'r sefydliad yn cael ei ystyried yn isel, gyda dim pryderon ynghylch enw da'n cael eu hadnabod. Roedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer gwerthuso swyddi'n cael ei ailedrych arno, a nodwyd bod gohirio o bryd i'w gilydd yn codi oherwydd pa mor gymhleth a phenodol oedd rolau Llais o'u cymharu gyda phroffiliau swyddi arferol y GIG.

A26-05-04 Lefelau gwerthusiadau. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yn y Pwyllgor Gweithlu, Cyflog a Thelerau Cyflogaeth. **Cam Gweithredu:** Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau

11.0 Adroddiad risg corfforaethol

- 11.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd yr adroddiad er gwybodaeth a sicrwydd ac amlinellodd proffil risg asesedig y sefydliad o 31 Mawrth 2026 ymlaen.

- 11.2 Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adroddiad yn darparu trosolwg o risgiau a gofnodwyd ar y gofrestr risg gorfforaethol, ynghyd â diweddariad ar sefyllfa bresennol cofrestrau risg ar draws ffwythiannau a rhanbarthau.
- 11.3 Nodwyd yn dilyn adolygiad gan y Tîm Gweithredol, bod sawl risg wedi cael eu lleihau a bod un risg newydd wedi'i hychwanegu mewn perthynas â gwrando ar bobl.
- 11.4 Roedd y trefniadau adrodd diwygiedig yn parhau i fod yn eu lle, ac roedd datblygiad pellach o'r dangosfwrdd yn parhau. Roedd angen gwaith ychwanegol er mwyn gwella dadansoddi tueddiadau a gwella effeithiolrwydd cyfathrebu.
- 11.5 Nododd yr aelodau bod cofrestrau risg rhanbarthol a ffwythiannol yn cael eu hadolygu'n fisol gan Gyfarwyddwyr a pherchnogion risgiau. Roedd y Rheolwr Llywodraethu a Risg yn ymgysylltu gyda'r timau hyn yn fisol er mwyn adolygu cofrestrau, darparu cynghor lle roedd angen, ac adnabod unrhyw risgiau newydd oedd angen craffu neu ddatblygu ymhellach. Lle roedd yn briodol roedd risgiau wedi'u huwchgwyfeirio i'r Tîm Gweithredol i'w hystyried ac ar gyfer y posibilrwydd o'u cynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol.
- 11.6 Holodd Aelod Anweithredol p'un a oedd y ddwy risg uchaf ar y gofrestr risg corfforaethol yn adlewyrchu'n briodol risgiau mwyaf arwyddocaol y sefydliad. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y risgiau hyn o bwys hanfodol, gan gynnwys dibynadwyedd y sefydliad ar gapasiti a gallu staff i gyflawni amcanion Llais. Cydnabuwyd bod datblygiad a chefnogaeth bellach i staff ochr yn ochr â rheolaeth llinell gref yn cael eu hystyried yn hanfodol.
- 11.7 Er bod camau'n cael eu cymryd gan y Tîm Pobl i gefnogi rheolwyr llinell ar draws rhanbarthau a chyfarwyddiaethau, cydnabuwyd bod angen datblygu rhaglen gefnogi bellach ac roedd yn cael ei chynllunio.

12.0 Cofnodion y cyfarfod diwethaf

- 12.1 Cymeradwywyd y cofnodion diwethaf o gyfarfod 25 Mawrth 2026 gan y Bwrdd. Cadarnhawyd y cofnodion fel gwir gofnod manwl gywir.

13.0 Cofnod gweithredu a materion yn codi o'r cofnodion

- 13.1 Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd bod y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn flaenorol wedi eu hadolygu gan y Tîm Gweithredol ac roeddent yn cael eu monitro drwy gyfarfodydd misol. Roedd sawl gweithred wedi'i gwblhau, gyda rhai eraill yn parhau. Fodd bynnag, darparwyd eglurhad naratif eglur a champau nesaf ar gyfer y rhai oedd yn parhau i fod ar waith.
- 13.2 Cytunodd yr aelodau y byddai camau gweithredu a gwblhawyd yn cael eu trosglwyddo i'r adran gaeedig o'r log.

14.0 Defnyddio'r Sêl Gyffredin

- 14.1 Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd bwrdd bod y ddogfen hon yn cael ei chyflwyno i'w chadarnhau ynghylch defnydd diweddar sêl gyffredin Llais yn unol â'r Gorchmynion Arhosol.
- 14.2 Bu i'r aelodau gadarnhau'r defnydd o'r sêl gyffredin.

15.0 Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd

- 15.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd adroddiad sicrwydd gan y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2026 yn absenoldeb cadeirydd y pwyllgor.
- 15.2 Tynnwyd sylw at y newidiadau diweddar i drefniadau arweinyddiaeth y pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd. Cytunwyd y byddai Karen Lewis yn cymryd arni rôl Cadeirydd y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth, ac y byddai Mair Gwynant yn Cadeirio'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Cadarnhaodd yr unigolion hyn eu bod yn cytuno gyda'r newidiadau hyn.
- 15.3 Nododd yr aelodau yr adroddiad er gwybodaeth.

16.0 Cwestiynau gan y cyhoedd

- 16.1 Roedd aelod o'r cyhoedd wedi gofyn y cwestiwn canlynol cyn y cyfarfod Bwrdd. Darparodd y Prif Weithredwr yr ateb canlynol.
- **Pa strategaethau radical penodol mae Llais yn bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn gwella gwasanaethau methiannus y**

GIG a sut mae mireinio ac arddangos y llwyddiant mae Llais wedi'i gyflawni o safbwynt y gwelliannau?

Nododd y Prif Weithredwr bwysigrwydd y rôl mae Llais yn ei chwarae o safbwynt y GIG a gwasanaethau lechyd a Chymdeithasol. Nid yw Llais yn rhedeg gwasanaethau a reolir, ac nid ydym yn darparu rhaglenni gwelliant gweithredol. Roedd cyfrifoldebau ynghylch gwella gwasanaethau'r GIG yn perthyn i'r Byrddau Iechyd, yr ymddiriedolaethau a chyrrff GIG eraill, Llywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaeth eraill.

Rôl Llais oedd gwneud yn siŵr bod llais y bobl yn cael ei wrando arno gan ddal gwasanaethau'n atebol pan nad oeddent yn bodloni anghenion pobl. Mae Llais yn gwneud hyn mewn ffordd weithredol a strwythuredig drwy gasglu profiad bywyd, adnabod patrymau a gwneud sylwadau yn seiliedig ar dystiolaeth i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae Llais hefyd yn gweithio gyda sefydliadau wrth iddynt ddylunio a newid gwasanaethau a dilyn i fyny ar gamau gweithredu ymrwymedig. Golyga hyn nad yw dull Llais o weithredu yn golygu ymyriadau ynysig neu radical, ond yn hytrach ynghylch cymhwyso dylanwad cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu gwella a'u darparu led-led Cymru.

Mae Llais yn adnabod yr angen am gefnogi ac yn cyfrannu at weithgaredd sy'n creu gwelliant. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb dros ddarparu'n parhau gyda'r darparwyr gwasanaeth. Nid oedd ffigyrau llwyddiannus yn uniongyrchol berthnasol i p'un a oedd gan Llais wasanaethau sefydlog, ond yn hytrach yn ôl p'un a oedd yr hyn roedd pobl yn ei ddweud wrthym wedi arwain at newid. Parhaodd Llais i atgyfnerthu sut rydym yn rhoi newid ar waith drwy ein sylwadau a sut i gyfathrebu'r traweffaith, fel nod y gwahaniaeth a wnaed yn fwy eglur i bobl a chymunedau.

Yn y pen draw, rôl Llais oedd sicrhau bod gan bobl ar hyd a lled Cymru leisiau cryf ac annibynnol oedd yn arwain at well penderfyniadau a gwasanaethau. Nid oedd y dylanwad hwn bob amser yn digwydd yn syth, ond roedd yn cael ei gynnal led-led y system.

17.1 Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

18.0 Amserlen cyfarfod y Bwrdd

- 18.1 Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd bod yr amserlen wedi'i gyflwyno fel diweddariad gan y byddai rhaglen waith newydd yn cael ei datblygu yn y misoedd oedd i ddod yn dilyn cadarnhad o ddyddiadau newydd y bwrdd oedd wedi'u hamserlennu a'r allbynnau o'r adolygiad effeithiolrwydd Bwrdd.
- 18.2 Byddai'r amserlen newydd yn cynnwys allbynnau o'r adolygiad effeithiolrwydd, ochr yn ochr â'r eitemau sefydlog a'r rhaglen bresennol. Awgrymwyd y gallai gael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol dros e-bost i'w adolygu cyn iddo gael ei gyflwyno'n ôl i'r Bwrdd er mwyn galluogi iddo gael ei gymeradwyo.

A26-05-05 Amserlen cyfarfod Bwrdd: Datblygu amserlen cyfarfod newydd ar gyfer 2026/2027. **Cam Gweithredu:** Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

19.0 Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

- 19.1 Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o 10 Rhagfyr 2025 er gwybodaeth.

20.0 Dyddiad y cyfarfod nesaf

- 20.1 Cynhelir y Cyfarfod Bwrdd cyhoeddus nesaf ar ddydd Mercher 21 Hydref 2026.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:41. Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd ynghlwm wrth baratoi'r papurau, cyflwyniadau a chyfrannu at y cyfarfod Bwrdd.